

---

## Labelu alergenau mewn gwin

---

**Adolygwyd y canllawiau ym  
mis Ebrill 2016**

### **Fformatau eraill**

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat arall, fel sain, print bras neu Braille, ffoniwch Linell Gymorth yr ASB ar 020 7276 8829 neu e-bostiwch [helpline@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:helpline@foodstandards.gsi.gov.uk)

Os oes gennych ymholiadau technegol ynghylch y canllawiau hyn, cysylltwch â'ch Arolygydd Gwin Rhanbarthol. Cewch hyd i'r manylion cyswllt yn <http://www.food.gov.uk/business-industry/winestandards/contactinspectors>

### **Paratowyd y canllawiau gan**

Graham Finch

Arolygydd Technegol Safonau Gwin

E-bost [winestandards@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:winestandards@foodstandards.gsi.gov.uk)

## Crynodeb

<b>Cynulleidfa darged:</b>	Potelwyr, anfonwyr, mewnforwyr, cyfanwerthwyr a chynhyrchwyr yn y DU
<b>Pa rai o wledydd y DU y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol iddynt?</b>	Pob un o wledydd y DU
<b>Pwrpas:</b>	Canllawiau ynghylch labelu'r alergenau llaeth ac wy a ddefnyddir fel asiantau diwaddodi a sylffwr deuocsid
<b>Statws cyfreithiol:</b>	Canllawiau rheoliadol
<b>Geiriau allweddol:</b>	Gwin, labelu, alergenau, llaeth, wyau, sylffitau
<b>Dyddiad adolygu:</b>	Ebrill 2018

## Hanes diwygio

Mae'r canllawiau hyn yn dilyn Cod Ymarfer y Llywodraeth ar Ganllawiau. Os ydych yn credu bod y canllawiau hyn yn mynd yn groes i ofynion y Cod am unrhyw reswm, rhowch wybod i ni drwy e-bostio [betterregulation@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:betterregulation@foodstandards.gsi.gov.uk).

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y canllawiau eu hunain, dylech eu hanfon drwy'r e-bost at [winestandards@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:winestandards@foodstandards.gsi.gov.uk).

Rhif y diwygiad	Dyddiad diwygio	Pwrpas y diwygiad a rhif y paragraff	Diwygiwyd gan
1.	Tachwedd 2013	Rhestr gynhwysion	John Boodle
2.	Ebrill 2016	Diweddarau'r manylion cyswllt Diweddarau'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys uchder gofynnol y llythrennau mewn rhybuddion alergenau Diweddarau'r testun	Graham Finch

## **Cynnwys**

<b>LABELU ALERGENAU MEWN GWIN .....</b>	<b>1</b>
<b>CRYNODEB .....</b>	<b>2</b>
<b>HANES DIWYGIO.....</b>	<b>2</b>
<b>CYNNWYS .....</b>	<b>3</b>
<b>CYNULLEIDFA DARGED .....</b>	<b>4</b>
<b>PWRPAS Y CANLLAWIAU .....</b>	<b>4</b>
<b>STATWS CYFREITHIOL Y CANLLAWIAU.....</b>	<b>4</b>
<b>DEDDFWRIAETH Y COMISIWN EWROPEAIDD A'R DU.....</b>	<b>4</b>
<b>GOFYNION LABELU'R DU.....</b>	<b>7</b>
<b>CYFEIRIADAU.....</b>	<b>8</b>
<b>ADOLYGU .....</b>	<b>8</b>

## **CYNULLEIDFA DARGED**

1. Canllawiau ar gyfer potelwyr, anfonwyr, mewnforwyr, cyfanwerthwyr a chynhyrchwyr y DU yw'r rhain.

## **PWRPAS Y CANLLWAIU**

2. Paratowyd y canllawiau hyn i sicrhau bod masnachwyr gwin yn gwybod am eu rhwymedigaethau cyfreithiol o ran labelu alergenau a, thrwy hynny, i sicrhau bod y rheini sy'n yfed gwin yn ddiogel.

Rhaid rhoi rhybudd alergenau ar label unrhyw win a gynhyrchwyd o gynhaeaf gwin 2012 ymlaen ac y defnyddiwyd wy neu laeth fel asiant diwaddodi ar ei gyfer os yw'r gweddillion yn fwy na 0.25mg/l.

Rhaid rhoi rhybudd alergenau ar label unrhyw win a gynhyrchwyd ers mis Tachwedd 2005 sy'n cynnwys 10mg/litr neu ragor o sylffwr deuocsid.

## **STATWS CYFREITHIOL Y CANLLAWIAU**

3. Paratowyd y canllawiau hyn i roi cyngor am ofynion cyfreithiol Rheoliad Labelu Gwin (EC) 607/2009 a Rheoliad Darparu Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr (EU) 1169/2011 mewn perthynas â'r gofynion labelu alergenau mewn gwin.
4. Ni all y canllawiau hyn drin a thrafod pob sefyllfa a allai godi a gall fod angen ichi ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol ei hun i weld sut y mae'n berthnasol i chi. Os byddwch yn dilyn y canllawiau hyn, byddant yn eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith. Os oes gan fusnes ymholiadau penodol, gall ofyn am gyngor gan ei Arolygydd Gwin Rhanbarthol. Mae'r manylion cyswllt ar gael yn

<http://www.food.gov.uk/business-industry/winestandards/contactinspectors>

## **DEDDFWRIAETH Y COMISIWN EWROPEAIDD A'R DU**

5. Fel rheol, bydd cynhyrchion gwin yn cael eu marchnata a'u labelu yn unol â rheoliadau gwin penodol, gan fod gwin yn dod o dan drefn farchnata wahanol i gynhyrchion bwyd cyffredinol. Fodd bynnag, mae "rheolau llosweddol" penodol sy'n gysylltiedig â materion diogelwch bwyd, fel rhybuddion alergenau, hefyd yn berthnasol i'r broses o labelu gwin.
6. Ers 25 Tachwedd 2005, mae'n rhaid labelu alergenau mewn gwin. Bryd hynny, dim ond rhoi rhybudd am sylffwr deuocsid yr oedd yn rhaid ei wneud, a hynny os oedd

mwy na 10mg/l o sylffwr deuocsid yn bresennol yn y gwin. Nid yw'r trothwy hwn wedi newid.

7. Yn 2007, cyflwynodd y Comisiwn Ewropeaidd Gyfarwyddeb 2007/68, gan ychwanegu rhagor o gynhwysion alergenaid at y gofynion labelu. O ganlyniad i hyn, ac ar ôl cryn wrthwynebiad gan y diwydiant, mae'n rhaid i gynhyrchwyr, ers mis Mehefin 2012, ddatgan bod gweddillion llaeth a/neu wy yn bresennol yn y gwin os yw'r gweddillion hynny'n fwy na'r lefel benodedig. Ar hyn o bryd, 0.25mg/l yw'r lefel benodedig.
8. Yn 2011, cyflwynodd yr UE Reoliad (EU) 1169/2011 a oedd yn cynnwys amryw o ddarpariaethau ar gyfer labelu pob cynnyrch bwyd. Roedd y rhain yn cynnwys rhestrau cynhwysion, gwybodaeth am faeth a rhybuddion alergenau. Rhoddwyd y rheoliadau hyn ar waith yn y DU gan Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014. Yn gyffredinol, o dan y rheoliadau hyn, mae'n rhaid tynnu sylw at unrhyw sylweddau alergenaid mewn bwyd yn y rhestrau cynhwysion.
9. Serch hynny, roedd y rheoliadau hyn yn eithrio gwin (a diodydd alcoholaid eraill uwchlaw 1.2%abv) rhag y gofynion i ddangos gwybodaeth am faeth a rhestrau cynhwysion. Ond, yn unol â'r rheoliadau, mae'n ofynnol rhoi rhybuddion alergenau ar win os yw'r cynhwysion alergenaid a bennwyd yn bresennol uwchlaw'r lefelau penodedig. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid dangos y cynhwysion alergenaid gan ddefnyddio'r fformat a ganlyn:  
  
"Contains -- ac yna enw'r alergen"  
  
Mae'r gofyniad hwn yr un fath â'r gofyniad a geir yn Rheoliad Labelu Gwin (EC) 607/2009.
10. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau newydd wedi pennu **maint gofynnol** ar gyfer rhybuddion alergenau. Rhaid bod y rhybudd yn hawdd ei ddarllen a rhaid ei fod yn 1.2mm o uchder o leiaf ar sail uchder "x" fach yn y ffont a ddefnyddir. Gweler y diagram ar dudalen 7.
11. Rhaid dangos pob rhybudd alergenau mewn Saesneg neu Saesneg Americanaidd, ond gellir dangos y rhybudd mewn ieithoedd eraill, yn ogystal â Saesneg, i hwyluso masnach yn y gymuned.
12. Defnyddio rhestrau cynhwysion "gwirfoddol"

Er nad oes rhaid rhoi rhestr gynhwysion ar win, fel y soniwyd eisoes, bydd rhai masnachwyr am ddefnyddio rhestrau cynhwysion o'u gwirfodd i farchnata'r holl fwyd a werthir ganddynt mewn ffordd gyson. Yn gyffredinol, ar yr amod bod yr alergen a'r gair "contains" i'w gweld yn glir, gall hyn fod yn dderbyniol; ond yn ddelfrydol, dylid dilyn y fformat "Contains [enw'r alergen]" a bennir yn y rheoliadau. Dylai unrhyw fasnachwr sydd am roi rhestr gynhwysion ar ei gynnyrch drafod cynllun y label arfaethedig gyda'i Arolygydd Gwin Rhanbarthol.

### 13. Datganiadau "dim sylffwr wedi'i ychwanegu" a "heb sylffitau"

Bydd rhai cynhyrchwyr gwin yn tybio'n anghywir nad oes angen iddynt arddangos rhybudd alergenau ar y cynnyrch terfynol oherwydd nad ydynt wedi defnyddio sylffwr deuocsid nac unrhyw driniaethau sylffwr eraill yn ystod y broses o gynhyrchu'u gwin.

Mae sylffitau'n cael eu cynhyrchu'n naturiol yn ystod y broses eplesu arferol, felly hyd yn oed os nad yw'r cynhyrchydd wedi ychwanegu sylffwr, mae'n dal i fod yn debygol y bydd lefelau gweddilliol y sylffitau'n fwy na'r trothwy datgan o 10mg/l. Nid ydym yn credu y gall fod yn gywir disgrifio unrhyw win fel cynnyrch "heb sylffitau" ("*sulphite free*").


Felly, bydd arolygwyr yn tybio bod pob gwin yn cynnwys mwy na'r trothwy datgan ac y dylid arddangos rhybudd alergenau ar y label.

I leihau'r risg y bydd llwythi o win yn destun rheolaethau symud, rydym yn argymhell yn gryf y dylai'r cynhyrchwyr a'r dosbarthwyr gwin hynny sy'n gwneud datganiadau o'r fath ("*no added sulphur*" neu "*sulphite free*"), ac nad ydynt yn arddangos rhybudd alergenau ar y label, ddarparu copi o'r dadansoddiad sy'n berthnasol i'r swp o win o dan sylw (ynghyd â'r dogfennau cysylltiedig gorfodol eraill) i brofi bod lefelau'r sylffitau yn is na'r trothwy datgan cyfreithiol.

### 14. Defnyddio pictogramau neu symbolau gwirfoddol

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol arddangos rhybuddion ysgrifenedig yn ôl y gyfraith. Os yw cynhyrchydd am ddefnyddio pictogram neu symbol cymeradwy, fel y dangosir isod, i dynnu sylw at yr alergenau sy'n bresennol, gall wneud hynny yn ychwanegol at y rhybudd ysgrifenedig. Mae'r symbolau'n ymddangos yn Rheoliad (EU) 579/2012

<http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2012:171:0004:0007:EN:PDF>



## GOFYNIION LABELU'R DU

### Mae'r gofynion a ganlyn yn rhai gorfodol

### Rhybuddion ysgrifenedig gofynnol

Alergen	Datganiad (yn Saesneg)	Trothwy datgan	Nodiadau
Sylffwr deuocsid	"Contains sulphur dioxide" (NEU sulphites/sulfites)	Mwy na 10 miligram y litr o sylffwr deuocsid	Bydd bron i bob gwin yn cynnwys mwy na'r trothwy hwn.
Cynhyrchion wy a llaeth	"Contains --" ac yna un o'r termau a ganlyn:  'egg', 'egg protein', 'egg product', 'egg lysozyme' NEU 'egg albumin'  'milk', 'milk products', 'milk casein' NEU 'milk protein'	Mwy na 0.25 miligram y litr	Dylech ddefnyddio un term o'r naill grŵp a'r llall os ydych wedi defnyddio llaeth ac wy a bod y gweddillion yn uwch na'r trothwy.

### Uchder gofynnol

Rhaid i'r rhybuddion ysgrifenedig fod yn 1.2mm o uchder o leiaf ar sail uchder llythyren "X" fach yn y ffont a ddefnyddir.



#### Allwedd

1. Esgynnydd
2. Uchder priflythyren
3. Llinell ganol
4. Llinell waelod
5. Disgynnydd
6. **Uchder x**
7. Maint y ffont

## **CYFEIRIADAU**

1. Rheoliad (EU) 579/2012

<http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32012R0579&from=EN>

2. Rheoliad (EU) 1169/2011 (Rheoliad Darparu Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr)

<http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32011R1169&qid=1461072342439&from=EN>

3. Rheoliad (EC) 607/2009 (Rheoliad Labelu Gwin)

<http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32009R0607&qid=1461072492586&from=EN>

4. Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

[http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2303/pdfs/wsi\\_20142303\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2303/pdfs/wsi_20142303_mi.pdf)

## **ADOLYGU**

Bydd y canllawiau'n cael eu hadolygu ym mis Ebrill 2018. Os hoffech roi sylwadau ar y canllawiau, anfonwch e-bost at [winestandards@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:winestandards@foodstandards.gsi.gov.uk)